



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gwmni Hyfforddiant Cambrian  
Y Swyddfeydd  
Coed y Dinas  
Y Trallwng  
Powys  
SY21 8RP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor,  
Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

## Cyd-destun

Darparwr hyfforddiant sydd wedi'i berchnogi'n breifat yn y Trallwng yw Cwmni Hyfforddiant Cambrian. Mae'r darparwr yn gweithio ledled Cymru mewn partneriaeth ag ystod eang o fusnesau. Mae pob un o'r dysgwyr mewn swydd ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dechrau hyfforddiant trwy'r berthynas waith agos sydd gan y darparwr gyda chyflogwyr.

Mae'r darparwr yn arbenigo mewn cyflwyno hyfforddiant mewn:

- Lletygarwch ac arlwyo;
- Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod;
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- Arwain a rheoli timau;
- Medrau Gwasanaeth Cwsmeriaid a Manwerthu; a
- Gweinyddu Busnes.

Adeg yr arolygiad, roedd tua 420 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni hyfforddi wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru gyda'r cwmni.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y darparwr</b>	<b>Digonol</b>
<b>Rhagolygon gwella'r darparwr</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

At ei gilydd, mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau arni yn dda. Mae data diweddar nas gwiriwyd yn dangos bod cyrhaeddiad yn cael ei gynnal ar gyfradd dda. Ni chaiff pynciau Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ADCDFE) eu hatgyfnerthu'n effeithiol ar draws y rhaglen hyfforddi, ac o ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth a gwybodaeth gyfyngedig am y testun. Nid yw dysgwyr yn elwa ar adborth ysgrifenedig adeiladol gan aseswyr sy'n eu galluogi i wella eu perfformiad yn y dyfodol ar draws y rhan fwyaf o rannau o'r fframwaith hyfforddi. At ei gilydd, mae ansawdd cynllunio'r hyfforddi a'r asesu gan swyddogion hyfforddi yn amrywio gormod.

Nid yw rheolwyr y darparwr wedi blaenoriaethu a chanolbwyntio'n dda ar gael dysgwyr i gyflawni eu fframwaith cymhwyster. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau a phrosesau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio digon ar wella pob agwedd ar hyfforddi ac asesu. Nid yw rheolwyr y darparwr yn rhoi digon o ffocws ar faterion allweddol, yn enwedig datblygiad medrau sylfaenol a llythrennedd pob dysgwr a datblygu swyddogion hyfforddi i'w galluogi i gefnogi dysgwyr yn effeithiol i wella'r medrau hyn.

Er bod cyfathrebu rheolaidd, electronig yn bennaf, yn parhau rhwng y darparwr a'i isgontractwyr, mae'r ffaith na chynhelir cyfarfodydd rheolaidd wedi golygu bod cyfleoedd wedi'u colli i wella gwaith y bartneriaeth ymhellach er budd dysgwyr.

### Rhagolygon gwella

Mae gallu'r darparwr i wella yn dda oherwydd:

- bod gan y rheolwr gyfarwyddwr weledigaeth glir o'r hyn y mae angen i'r darparwr ei wneud i weithio tuag at ragoriaeth wrth gyflwyno hyfforddiant;
- bod effaith lleihau maint y tîm rheoli yn dechrau sefydlu mwy o eglurder mewn rolau a chyfrifoldebau; a
- bod y darparwr wedi cynnal ffocws cryf ar agweddau allweddol ar hyfforddiant, yn cynnwys y cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi arnynt.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, rhaid i'r darparwr:

- A1 ddatblygu a gweithredu strategaeth glir i ddatblygu medrau sylfaenol a medrau llythrennedd pob dysgwr;
- A2 gwella ansawdd a chysondeb yr asesu a'r dysgu;
- A3 gwneud yn siŵr bod rheolwyr yn troi amcanion strategol y darparwr yn weithgareddau gweithredol effeithiol;
- A4 gwella rheoli gweithio mewn partneriaeth ag isgontractwyr;
- A5 sicrhau bod yr holl brosesau ansawdd yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn llawn a'u monitro'n drylwyr gan reolwyr; a
- A6 gwneud mwy i hyrwyddo ac ymgorffori iaith a diwylliant Cymru ac ADCDFE ymhlith pob dysgwr.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn gofyn i'r darparwr fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad ac integreiddio eu camau arfaethedig yn eu cynllun gweithredu i'r Adran Addysg a Sgiliau. Bydd arolygydd cyswllt Estyn yn monitro'r cynnydd y mae'r darparwr yn ei wneud yn erbyn yr argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Digonol

#### Safonau: Digonol

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau arnynt yn dda. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r gyfradd cyrhaeddiad wedi gwella. Yn y cyfnod 2009 i 2010, roedd cyfraddau cyrhaeddiad ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2010 i 2011 yn dangos bod cyfraddau llwyddo wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, bernir bod y gyfradd y mae dysgwyr yn symud ymlaen i lefel nesaf yr hyfforddiant yn ddigonol. Mae dysgwyr yn perfformio'r un mor dda ar raglenni Sylfaen a Phrentisiaeth fel ei gilydd. Mae bron pob dysgwr yn cwblhau eu cymwysterau o fewn y graddfeydd amser a nodwyd yn eu Cynlluniau Dysgu Unigol (CDUau).

Mae bron pob un o'r dysgwyr presennol yn gwneud cynnydd da yn eu rhaglenni hyfforddi. Mae llawer ohonynt yn datblygu ac yn dangos cymhwysedd ymarferol da a gwybodaeth dda am theori yn eu gweithleoedd. Mae pob dysgwr wedi'i gyflogi ac yn elwa ar gyfleoedd asesu da yn eu gweithleoedd.

At ei gilydd, mae gwaith dysgwyr mewn portffolios Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC) yn bodloni'r safon ofynnol. Ar lawer o raglenni, caiff dysgwyr gyfle i ddefnyddio portffolios electronig. Fodd bynnag, wrth ddefnyddio'r portffolios hyn, nid yw dysgwyr yn elwa ar adborth ysgrifenedig adeiladol gan swyddogion hyfforddi sy'n eu galluogi i wella eu perfformiad yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd mewn ffordd systematig oherwydd y gwahaniaethau yn ansawdd y cymorth a gânt gan isgontractwyr. Nid yw dysgwyr yn elwa ar gywiriadau ac adborth ysgrifenedig adeiladol gan swyddogion hyfforddi. Nid yw llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau sillafu a gramadeg yn ddigon da fel rhan o'u cyrsiau galwedigaethol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio ystod briodol o eirfa, a gallant fynegi eu hunain yn dda.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd boddhaol wrth ddatblygu eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC). Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cwblhau'r rhain yn gynnar yn eu hyfforddiant. Mae rhai dysgwyr yn cwblhau'r rhain ar lefel yn uwch na'r hyn sy'n ofynnol gan eu fframweithiau. Fodd bynnag, nid oes gan SHC berthnasedd clir i'r dyfarniad galwedigaethol bob amser. Dangosodd pob dysgwr fedrau galwedigaethol da.

Mae pob dysgwr yn datblygu dealltwriaeth sylfaenol o ADCDFE yn ystod eu rhaglen ymsefydlu. Fodd bynnag, ni chaiff y pynciau hyn eu hatgyfnerthu'n effeithiol trwy gydol y rhaglen hyfforddi, ac o ganlyniad, mae'r ddealltwriaeth a'r wybodaeth a ddangosir gan lawer o ddysgwyr yn gyfyngedig.

Mae tua 9% o ddysgwyr ar draws yr holl raglenni hyfforddi yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. At ei gilydd, nid yw'r darparwr yn gwneud digon i annog pob dysgwr i ddatblygu eu defnydd o'r iaith Gymraeg a gwerthfawrogi diwylliant Cymru.

## Lles: Digonol

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos ymwybyddiaeth ddigonol o iechyd a diogelwch a lles yn eu gweithleoedd.

Mae gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer archwilio a monitro lleoliadau gwaith.

Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth resymol o les a ffyrdd iach o fyw. Fodd bynnag, nid yw llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth glir o faterion lles. Nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn elwa ar gwestiynau heriol gan swyddogion hyfforddi a fydd yn datblygu ac yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Er enghraifft, mae cwestiynau yn aml yn ymwneud â bwyta'n iach yn unig.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu lleoliadau gwaith ac mae'r rhan fwyaf yn gwybod gyda phwy i gysylltu os oes ganddynt broblem.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu rhaglenni hyfforddi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos hyder ac maent wedi'u cymell yn dda i gwblhau eu hyfforddiant ac ennill eu cymwysterau. Gall lleiafrif o ddysgwyr help i gynllunio eu gweithgareddau hyfforddi ac asesu.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn elwa ar leoliadau gwaith da sy'n gwasanaethu eu cymunedau lleol yn dda. Mae rhai dysgwyr yn cymryd rhan mewn gwaith elusennol ac maent wedi cymryd rhan mewn cystadlaethau a dyfarniadau lleol a chenedlaethol.

Mae perthnasoedd da yn bodoli rhwng dysgwyr, swyddogion hyfforddi a chyflogwyr. Mae pob dysgwr wedi'i gyflogi, ac mae prydlondeb a phresenoldeb yn dda.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Digonol</b>
----------------

## Profiadau dysgu: Digonol

At ei gilydd, mae'r hyfforddiant a gyflwynir gan y darparwr yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned ehangach yn dda iawn. Mae gan y darparwr berthnasoedd gweithio da, hirsefydledig gydag ystod eang o gyflogwyr, yn cynnwys mentrau bach a chanolig a chwmnïau mawr ledled Cymru. Mae'r darparwr yn cyflwyno cymwysterau sy'n gwasanaethu'r economi leol ac maent wedi cyflwyno cymwysterau ar gyfer y diwydiant ailgylchu yn ddiweddar. Mae'r cwmni yn cefnogi'r diwydiant lletygarwch yn arbennig. Mae pob cyflogwr wedi ymrwymo'n fawr i hyfforddiant ac yn rhoi lefelau da iawn o gymorth i'w dysgwyr.

Sefydlwyd tîm bach Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) yn Awst 2011 ac mae'n cynnwys Cymru gyfan. Mae'r tîm yn cyflwyno ac yn asesu'r holl fedrau hanfodol ar draws pob llwybr galwedigaethol. Fodd bynnag, ni chaiff dysgwyr eu herio digon i ennill medrau hanfodol ar lefel uwch pan fo'n briodol.

Mae medrau hanfodol wedi'u cwblhau neu wedi hen ennill eu plwyf cyn dechrau cymhwyster galwedigaethol y dysgwyr. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd integreiddio a chysylltu â'r maes galwedigaethol. Er bod dysgwyr yn gallu defnyddio safle defnyddiol Moodle y darparwr ar gyfer cael deunyddiau dysgu medrau hanfodol,

mae'r prif ddysgu a'r asesiadau yn digwydd yn y gweithle, ac felly cyfle cyfyngedig a gaiff dysgwyr i ddefnyddio'r safle. Mae pecynnau dysgu medrau hanfodol yn glir ac addysgiadol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn profi dealltwriaeth dysgwyr yn effeithiol, ac nid ydynt yn cysylltu â'r pwnc galwedigaethol yn ddigon da.

At ei gilydd, nid yw'r arfer o hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru wedi cael ei datblygu'n ddigonol. Nid yw swyddogion hyfforddi'n gwneud digon i annog pob dysgwr sy'n medru'r Gymraeg i ddefnyddio a datblygu eu medrau bob amser.

Mae rhai dysgwyr yn dangos dealltwriaeth dda a gallant gysylltu ADCDFE yn dda â'u hamgylcheddau gwaith. Fodd bynnag, ni chaiff ADCDFE ei hymgorffori yn y broses hyfforddi. Mae'r darparwr wedi datblygu pecynnau gwybodaeth a dysgu 'ôl-troed eco' ar lefelau 1 a 2 yn ddiweddar. Mae'r darparwr yn gweithio gyda phartner ar arferion da mewn ADCDFE ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu'r effaith ar ddysgwyr.

### **Addysgu: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o swyddogion hyfforddi yn dangos gwybodaeth bynciol dda. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod eang o ddulliau hyfforddi, yn cynnwys arddangosiadau a thrafodaethau grŵp sy'n ennyn diddordeb eu dysgwyr ac yn eu hysgogi. Mae perthynas dda rhwng swyddogion hyfforddi a'u dysgwyr, ac mae hyn yn helpu magu hyder y dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o sesiynau wedi'u strwythuro'n dda ac yn adlewyrchu anghenion y cyflogwr, gan ddefnyddio arfer ddiogel yn ystod hyfforddiant yn y gwaith.

Mewn rhai sesiynau, gwneir defnydd da a phriodol o gwestiynau i wirio dealltwriaeth dysgwyr. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw medrau holi swyddogion hyfforddi wedi'u datblygu'n ddigon da. Mewn rhai sesiynau, nid yw hyfforddwyr yn esbonio damcaniaethau'n ddigon da i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r pwnc.

At ei gilydd, mae ansawdd cynllunio'r hyfforddi a'r asesu gan swyddogion hyfforddi yn amrywio gormod. Mewn rhai sesiynau, mae'r cynllunio a'r paratoi yn dda, ac mae cynlluniau asesu manwl. Nid yw llawer o swyddogion hyfforddi yn cynllunio i amrywio'r ffordd y maent yn cyflwyno ac yn asesu digon i fodloni anghenion dysgwyr unigol. Mae'r diffyg cynllunio hwn yn golygu bod rhediad rhai sesiynau'n rhy araf ac nid yw'n rhoi digon o her i'r dysgwyr.

At ei gilydd, nid yw swyddogion hyfforddi'n manteisio ar gyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol i ddatblygu medrau hanfodol dysgwyr. Mewn llawer o sesiynau, nid oes ffocws ar integreiddio'r iaith Gymraeg a'i diwylliant ac ADCDFE mewn dysgu.

Mae llawer o swyddogion hyfforddi yn rhoi adborth llafar effeithiol i ddysgwyr. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn rhy amrywiol, ac yn aml nid yw'n cynnwys esboniadau manwl neu arweiniad defnyddiol. Mewn rhai enghreifftiau, nid yw gwaith ysgrifenedig dysgwyr wedi cael ei farcio na'i asesu. Mae'r rhan fwyaf o swyddogion hyfforddi yn trafod targedau asesu tymor byr gyda'u dysgwyr. Mae rhai ohonynt yn llunio targedau asesu ysgrifenedig cytûn, sy'n cael eu gwirio yn ystod yr



ymweliad asesu nesaf. O ganlyniad, nid oes gan ddysgwyr gofnod ysgrifenedig digon da o'r cynnydd a wnânt bob amser.

Mae adolygiadau cynnydd dysgwyr yn canolbwyntio'n rhy aml ar bwyntiau gweithredu ar gyfer y sesiwn nesaf neu'n nodi tasgau i'w cwblhau. Nid ydynt bob amser yn adolygu'r dysgu sydd wedi digwydd. Nid yw'r rhan fwyaf o swyddogion hyfforddi yn cynnwys dysgwyr yn ddigon da wrth adolygu eu dysgu eu hunain.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r darparwr wedi rhoi polisiâu da ar waith i hyrwyddo iechyd a lles ei ddysgwyr. Mae polisi aflonyddwch a bwlio personol clir, ac adroddwyd am nifer fach iawn o achosion.

Mae trefniadau priodol ar gyfer diogelu dysgwyr. Mae'r polisi diogelu yn glir ac wedi'i ysgrifennu'n dda ac fe gaiff ei ddiweddarau bob blwyddyn. Caiff y polisi ei gefnogi'n dda gan arferion recriwtio da. Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod isgontractwyr yn cadw at y trefniadau effeithiol hyn.

Mae pecyn ymsefydlu ar-lein defnyddiol ar gyfer dysgwyr, sy'n ymdrin ag iechyd a diogelwch a hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith. Megis dechrau datblygu ystod o ddeunyddiau cymorth ar-lein ar gyfer iechyd a lles y mae'r darparwr. Caiff dysgwyr restrau o gysylltiadau ffôn defnyddiol ar gyfer cael cymorth a chefnogaeth. Mae'r darparwr wedi arwain ar gyflwyno cerdyn gostyngiad prentisiaid Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) sy'n helpu dysgwyr i arbed arian yn yr un ffordd â myfyrwyr eraill.

At ei gilydd, ni roddir digon o gyfleoedd i ddysgwyr fynd i'r afael â'u datblygiad personol. Nid yw'r darparwr yn rhoi digon o sylw i'r rhwystrau sy'n wynebu dysgwyr wrth gyflawni deilliannau llwyddiannus. Ni chaiff y rhwystrau hyn a'r cymorth sydd ar gael eu nodi'n ddigon clir na'u harchwilio'n llawn yn ystod sesiynau ymsefydlu dysgwyr. Mae'r darparwr yn cydnabod hyn ac yn hyfforddi anogwr dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y fenter benodol hon.

Nid yw'r trefniadau i nodi a chefnogi dysgwyr ag anghenion medrau hanfodol yn ddigon effeithiol. Mae swyddogion hyfforddi yn nodi arddulliau dysgu ac anghenion medrau hanfodol dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y mae swyddogion hyfforddi'n defnyddio canlyniadau'r asesiadau hyn i roi'r cymorth angenrheidiol i ddysgwyr. Nid oes digon o staff wedi'u hyfforddi i gefnogi dysgwyr i wella eu medrau llythrennedd a dod yn ddysgwyr annibynnol. Nid yw'r trefniadau i fonitro'r cynnydd a wna dysgwyr yn y maes hwn wedi'u datblygu digon.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth ac anghenion eraill yn rhy gyfyngedig. Nid yw swyddogion hyfforddi'n gwbl ymwybodol o'r ystod o anghenion ychwanegol na sut i'w bodloni. Nid yw'r darparwr yn monitro'r maes hwn yn ddigon da, ac felly ni all fod yn glir ynglŷn â'r ystod o gymorth y mae angen iddo'i datblygu a'i chyflwyno.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r darparwr yn hyrwyddo ethos clir o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Defnyddir amrywiaeth dda o ddulliau i drefnu bod gwybodaeth ar gael i staff a dysgwyr. Mae

ystod dda o bolisiâu a gweithdrefnau ar gael ar fewnwyd y darparwr. Caiff y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ei adolygu bob blwyddyn, ac fe'i cefnogir gan gynllun gweithredu effeithiol a ddsberthir i bob un o'r staff.

Mae arweiniad ar gyfle cyfartal, y weithdrefn apelio a gwybodaeth am iechyd a diogelwch wedi'u cynnwys yn rhaglen ymsefydlu'r dysgwyr, ac fe gânt eu monitro trwy gydol y flwyddyn. Caiff cyfle cyfartal ei hyrwyddo'n dda trwy gydol y cyfnod hyfforddi. Ceir sesiwn ddefnyddiol lle mae staff yn cwestiynu dealltwriaeth dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r arfer o atgyfnerthu a datblygu dealltwriaeth dysgwyr wedi'i hymgorffori'n ddigon da yn y profiad dysgu.

Mae gan bob dysgwr statws cyflogedig ac fe gânt eu cefnogi'n dda gan eu cyflogwyr. At ei gilydd, mae adeiladau'r darparwr a'r cyflogwyr yn dda ac yn addas at eu diben ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mewn rhai achosion, mae safon yr adeiladau a'r offer sydd ar gael i ddysgwyr yn eu gweithle yn uchel iawn. Mae'r cyfleusterau yng ngweithleoedd dysgwyr yn rhoi cyfleoedd da iddynt ddatblygu cymhwysedd ymarferol a darparu tystiolaeth dda ar gyfer eu portffolios CGC. Mae'r darparwr yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr i sicrhau bod dysgwyr yn gweithio mewn amgylchedd diogel ac iach.

Yn y gweithle, mae offer arbenigol yn gyfoes ac yn cynnig adnoddau i ddysgwyr ddatblygu eu medrau swydd yn dda. Caiff dysgwyr eu hannog i ddefnyddio'r broses e-bortffolio i wneud cynnydd a chofnodi eu gwaith. Mae portffolios papur ar gael i ddysgwyr y mae'n well ganddynt weithio ar 'gopi caled'.

Mae adeiladau'r darparwr yn fodern ac yn cynnwys offer da, ac maent yn cynnig amgylchedd dysgu da pan fydd angen. Maent hefyd yn adeiladau da ar gyfer gweinyddu'r contract dysgu yn y gwaith a rheoli'r darparwr. Mae Canolfan Ragoriaeth y darparwr ar gyfer paratoi bwyd masnachol yn gyfleuster o ansawdd da, sydd wedi'i lleoli'n agos at y prif swyddfeydd.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Digonol</b>
--	----------------

### **Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y darparwr strwythur rheoli diffiniedig, gyda llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb clir ymhlith y staff ar bob lefel. Mae'r cyfarwyddwyr yn cynnig cyfeiriad ac yn gosod gweledigaeth a ddeallir yn dda ar gyfer y cwmni.

Mae'r darparwr wedi cwblhau adolygiad ac ailstrwythuriad cynhwysfawr o'r staff o ganlyniad i'r gostyngiad ym maint ei contract gyda Llywodraeth Cymru. Mae hyn hefyd wedi cynnwys newidiadau i'w drefniadau is-gontractio. Mae uwch reolwyr wedi cwblhau'r broses hon gan darfu cyn lleied â phosibl ar ddysgwyr. Fodd bynnag, nid ydynt wedi rhoi ffocws digonol ar rai materion allweddol, fel sicrhau bod digon o ffocws ar ddatblygu medrau sylfaenol a llythrennedd ar gyfer pob dysgwr a datblygu hyfforddiant ar gyfer swyddogion ar y ffordd orau o gynorthwyo dysgwyr i wella'r medrau hyn.

Mae gan y rheolwr gyfarwyddwr weledigaeth glir o'r hyn y mae angen i'r darparwr ei wneud i gyflawni rhagoriaeth wrth gyflwyno hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith lawn y strategaethau hyn ar yr ystod lawn o weithgareddau hyfforddi.

Mae cyfarwyddwyr a rheolwyr yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o bwysigrwydd data cywir ac amserol yn ymwneud â pherfformiad dysgwyr. Maent yn casglu a dadansoddi data yn rheolaidd ac yn gwybod pa mor dda y maent yn perfformio o gymharu â darparwyr hyfforddiant eraill yng Nghymru. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd i bob un o'r staff hefyd. Mae'r darparwr wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae'r cwmni'n cyfrannu'n effeithiol at ystod eang o fentrau lleol a chenedlaethol.

Mae'r darparwr wedi buddsoddi'n helaeth mewn technoleg gwybodaeth, yn cynnwys system gadarn ar gyfer rheoli data, e-bortffolios ar gyfer dysgwyr a safle Moodle ar gyfer cyfathrebu gyda staff ac isgontractwyr. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd gyda Phenaethiaid y Cwricwlwm, cânt eu cofnodi, a lledaenir y canlyniadau trwy Moodle. Fodd bynnag, nid yw cyfarfodydd bob amser yn cynnwys partneriaid sy'n isgontractwyr. Mae hyn yn golygu nad yw pob is-gontractwr yn gwbl ymwybodol o'r ystod lawn o weithdrefnau, arferion a datblygiadau ar draws pob partner. Mae hefyd yn cyfyngu ar nodi a rhannu arfer orau ar draws y darparwr a phob un o'i isgontractwyr.

### **Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r darparwr yn defnyddio gweithdrefnau manwl ar gyfer hunanasesu yn flynyddol, sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o agweddau ar hyfforddiant. Mae'r darparwr yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau dysgwyr a chyflogwyr sy'n llenwi holiaduron boddhad defnyddiol. Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn fforymau llais y dysgwr ac fe gânt y cyfle i drafod materion gyda'r rheolwr gyfarwyddwr yn sgil amser hawl i holi'r rheolwr gyfarwyddwr. Mae'r darparwr yn gweithio'n agos iawn gyda chyflogwyr bob dydd. Mae staff yn gyfranddalwyr yn y cwmni, ac o'r herwydd gallant fynychu digwyddiadau cyfranddalwyr i adrodd yn ôl yn ffurfiol wrth reolwyr.

Mae system y darparwr ar gyfer cynllunio gwelliant yn dechrau gydag adolygiadau o feysydd y cwricwlwm. Mae arweinwyr meysydd y cwricwlwm yn cwblhau dogfennaeth hunanasesu safonedig sy'n llywio adroddiad hunanasesu a chynllun datblygu ansawdd y darparwr. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, nid yw arweinwyr y cwricwlwm yn defnyddio'r data cyfoes sydd ar gael ar berfformiad dysgwyr i lywio'r ddogfen neu i osod targedau. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r ddogfen wedi cael ei chwblhau'n llawn.

Caiff y broses hunanasesu ei llywio gan arsylwadau cymheiriaid rhwng swyddogion hyfforddi. Fodd bynnag, nid oes cyfatebiaeth ddigon agos rhwng y farn a ddyfarnir a'r testun yn yr adroddiad arsylwi. Mewn lleiafrif o achosion, mae'r barnau'n rhy hael. Mae'r adroddiad arsylwi yn canolbwyntio'n glir ar weithgareddau swyddogion hyfforddi. Mae'r adroddiadau'n dangos datblygiad cyfyngedig gan swyddogion hyfforddi a dealltwriaeth gyfyngedig gan ddysgwyr o fedrau llythrennedd hanfodol neu themâu allweddol ehangach hefyd, fel ADCDFE. Nid yw'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad dysgwyr.

Mae'r darparwr yn defnyddio data meincnodi'n dda, yn enwedig yn ei feysydd arbenigedd, lle mae'n meincnodi ei hun yn erbyn darparwyr ar hyd a lled y DU.

Mae'r darparwr yn weithgar iawn yn ei gefnogaeth i Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC). Mae'n manteisio'n llawn ar ei aelodaeth i rannu a chael arfer dda ar draws y rhwydwaith ledled Cymru. Mae staff o feysydd arbenigol y darparwr yn weithgar iawn yn y rhwydweithiau galwedigaethol amrywiol ledled y DU. Mae'r darparwr yn annog dysgwyr i gymryd rhan mewn cystadlaethau ar lefel genedlaethol a rhyngwladol hefyd, fel digwyddiad WorldSkills yn 2011, lle cynhaliodd ddsbarth meistr ar gig oen Cymru.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r darparwr wedi datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda'i bedwar is-gontractwr ac yn cymryd yr awenau mewn cynllunio a sicrhau ansawdd cyflwyno rhaglenni'r bartneriaeth. Hefyd, mae gan y darparwr berthnasoedd gweithio da gydag ystod eang o gyflogwyr. Ar y cyd â darparwr dysgu yn y gwaith arall, mae'n gweithio gyda chwmni bwyd, diod a thai bwyta mawr mewn academi i ddysgwyr ifanc sy'n dechrau yn y diwydiant lletygarwch. Mae hyn yn cynnwys cynllunio'r ddarpariaeth ar y cyd. Mae'r gwaith partneriaeth yn darparu ystod ddefnyddiol o gyfleoedd ar gyfer dysgwyr i weithio gyda chyflogwyr lleol da.

Tan yn ddiweddar, roedd gan y darparwr ddull cynhwysol o weithio gyda'i isgontractwyr, yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda'i gilydd a rhannu arfer dda. Fodd bynnag, mae'r darparwr wedi rhoi'r gorau i'r trefniant hwn ac yn gweithio gydag isgontractwyr yn unigol. Mae'r darparwr wedi disodli'r cyfarfodydd rheolaidd gydag isgontractwyr ar y cyd gyda phroses o fonitro isgontractwyr yn unigol. Mae'r darparwr wedi gweithio'n dda ac wedi rhoi cymorth da i is-gontractwr newydd sydd wedi ymuno â'r bartneriaeth yn ddiweddar.

Er bod cyfathrebu rheolaidd, electronig yn bennaf, yn parhau rhwng y darparwr a'i isgontractwyr, mae diffyg cyfarfodydd rheolaidd yn golygu bod cyfleoedd wedi cael eu colli i wella gwaith y bartneriaeth ymhellach er budd dysgwyr, er enghraifft cyflwyno strategaeth glir i ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr ar draws y darparwr a'i isgontractwyr.

Mae is-gontractwyr yn cyfrannu at adroddiad hunanasesu'r darparwr ond yn parhau i ddefnyddio eu systemau eu hunain ar gyfer recriwtio, hyfforddi a datblygu. Mae'r darparwr wedi cynnal nifer gyfyngedig o arsylwadau cymheiriaid o staff is-gontractwr, sydd wedi arwain at ychydig iawn o dystiolaeth o unrhyw hyfforddiant a datblygiad dilynol ar y cyd i staff y darparwr a'r is-gontractwyr.

### **Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae ffocws y darparwr ar hyfforddiant a datblygiad staff yn ddigonol. Mae rheolwyr wedi ychwanegu amcanion hyfforddi staff at y cynllun busnes diweddaraf.

Mae swyddogion hyfforddi yn ymgymryd â hyfforddiant cydnabyddedig ac achrededig i aseswyr a gwirwyr. Mae cynlluniau ar waith i bob swyddog hyfforddi ddilyn cwrs Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (PTTLS) i wella medrau addysgu a

dysgu. Mae cynlluniau ar waith hefyd i arfarnu a gwella medrau llythrennedd a rhifedd swyddogion hyfforddi wedi'u cefnogi gan y tîm medrau hanfodol, ond mae'n ddyddiau cynnar iawn i hyn.

Mae gan bob un o'r staff brofiad priodol ac maent yn dangos gwybodaeth gyfoes dda am eu diwydiant a gofynion fframweithiau cymhwyster dysgwyr.

Caiff hyfforddiant diweddarau ar gyfer staff ei gyflwyno'n bennaf trwy gyfarfodydd safoni a chyfarfodydd y tîm cwricwlwm, gyda diweddariadau wedi'u cynnwys ar safle Moodle y darparwr. Fodd bynnag, ni chaiff staff isgcontractwyr eu cynnwys yn y cyfleoedd hyfforddi hyn. At ei gilydd, ni chaiff ansawdd yr hyfforddiant a'i effaith ar ddysgwyr eu mesur yn effeithiol.

Mae'n ddyddiau cynnar iawn yn y cwmni o ran datblygu llythrennedd dysgwyr a chymorth ar ei gyfer. Cafwyd rhwydweithio gyda darparwyr eraill ac mae'r darparwr wedi mabwysiadu adnoddau a ddatblygwyd gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i gyflwyno ADCDFE.

Mae'r darparwr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn system electronig integredig, gyda nod o leihau'r effaith amgylcheddol, cost cyflwyno a dyblygu ymdrech. Mae hyn yn cynnwys rhoi system e-bortffolio ar waith, defnyddio'r e-pen a datblygu adnoddau ar gyfer Moodle. Caiff isgcontractwyr eu cynnwys yn y datblygiadau hyn. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cymharol gynnar o ran pob un o'r mentrau hyn, ac felly mae'n rhy gynnar i farnu eu heffaith ar ddysgwyr.

Mae gan y darparwr system gwybodaeth reoli (SGR) ganolog dda, sy'n darparu data cyfoes wedi'i feincnodi ar berfformiad dysgwyr ac aseswyr.

At ei gilydd, mae'r darparwr yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

### Bodddhad dysgwyr

Roedd yr ymatebion i holiaduron i ddysgwyr a lenwyd cyn yr arolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae llawer o ddysgwyr yn credu y cawsant wybodaeth dda gan y darparwr cyn iddynt ddewis eu rhaglen ddysgu. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu dysgu.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

Mark Evans AEM	Arolygydd Cofnodol
Bernard Hayward AEM	Arolygydd Tîm
Rachael Bubalo AEM	Arolygydd Tîm
Bernard O'Reilly AEM	Arolygydd Tîm
Patrick Leonard	Arolygydd Cymheiriaid
Jayne Smith	Arolygydd Cymheiriaid
Elaine McCallion	Arolygydd Cymheiriaid
Gerald Naylor	Arolygydd Ychwanegol
Anne Williams	Enwebai'r Darparwr